# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(101)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Atebwyd cwestiynau 3 a 8 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Dechreuodd yr eitem am 14:18

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

**CWESTIWN BRYS**

Dechreuodd yr eitem am 15:01

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Yn dilyn datganiad ysgrifenedig y Gweinidog ar yr Adolygiad Canol-Blwyddyn o Gyllid y GIG, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad brys ar gynaliadwyedd cyllid y GIG yng Nghymru.

### 3. Datganiad gan Mick Antoniw: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod - y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15:11

### 4. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Atal Thrombo-emboledd Gwythiennol Ymhlith Cleifion Mewn Ysbytai

Dechreuodd yr eitem am 15:43

**NDM5116 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad undydd i atal thrombo-emboledd gwythiennol ymhlith cleifion mewn ysbytai yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2012.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Tachwedd 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16:22

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5114 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod Uned Gyflawni'r Prif Weinidog yn aneffeithiol, o ystyried methiant parhaus Llywodraeth Cymru i wella bywydau pobl Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Yn galw ar y Prif Weinidog i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu cynnydd yr Uned Gyflawni o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwyntiau newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn gresynu wrth y ffaith, ers sefydlu'r Uned Gyflawni:

a) bod nifer y cleifion sy'n cael eu trin o fewn 26 wythnos ac o fewn 36 wythnos wedi gostwng, yn ôl ffigurau mis Medi 2011 a mis Medi 2012 gan StatsCymru;
b) roedd nifer y myfyrwyr a gafodd 5 TGAU A*-C yng Nghymru yn sylweddol is nag yn Lloegr;
c) bod diweithdra tymor hir ymysg pobl ifanc wedi codi 400%, yn ôl ffigurau mis Awst 2011 a mis Awst 2012 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol;

Yn gresynu ymhellach, er gwaethaf yr Uned Gyflawni, bod y Llywodraeth yn dal yn annhebygol o gyrraedd ei tharged o ddileu tlodi tanwydd ymysg pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol erbyn 2012.

Gellir gweld yr ystadegau ar amseroedd aros drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/121108sdr1942012en.pdf (Saesneg yn unig)

Gellir gweld yr ystadegau ar ddiweithdra ymysg pobl ifanc drwy fynd i:

http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/gor/2013265930/subreports/gor_ccadr_time_series/report.aspx (Saesneg yn unig)

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gan nad yw'r Cynulliad wedi derbyn y cynnig heb ei ddiwygio, na derbyn y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 17:23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5115 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth y lefel uchel barhaus o bobl ifanc sy'n ddi-waith;

2. Yn croesawu cytundeb Llywodraeth Cymru i ddarparu £20m ychwanegol ar gyfer 2013-14, a swm dangosol tebyg ar gyfer 2014-15, i gyllido prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi ychwanegol i bobl ifanc 16-24 oed;

3. Yn cydnabod bod angen rhoi rhagor o gymhellion i gyflogwyr bach a chanolig gynnig prentisiaethau sy'n gallu cynnig amrywiaeth o sgiliau i bobl ifanc.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 18 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**7. Dadl Fer – GOHIRIWYD**

**NDM5113 Ken Skates (De Clwyd):**

Y Dirwasgiad Maethol – Effaith cynnydd mewn prisiau bwyd a gostyngiad mewn cyllidebau ar iechyd maethol Cymru

**PWYNT O DREFN 1**

Cododd Antoinette Sandbach Bwynt o Drefn ynghylch amseriad y cynnig i atal dros dro y Rheolau Sefydlog a'r cynigion i dderbyn y Rheoliadau. Gofynnodd sut yr oedd y Llywydd yn fodlon na fyddai caniatáu'r cynnig i atal dros dro y Rheolau Sefydlog yn amharu ar hawliau lleiafrifoedd yn y Cynulliad.

Cadarnhaodd y Llywydd ei bod yn fodlon bod y Cynnig mewn trefn gan fod wythnos o rybudd wedi ei roi i'r Cynulliad y bydd y Rheoliadau yn cael eu trafod.

**PWYNT O DREFN 2**

Cododd Simon Thomas Bwynt o drefn ynghylch y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gosod deddfwriaeth yn Saesneg yn unig.

Eglurodd y Llywydd fod y Rheolau Sefydlog yn caniatáu i hyn ddigwydd o dan amgylchiadau eithriadol.

**Cynnig i atal dros dro Reol Sefydlog 27.7 ac 12.20(i) er mwyn caniatau cynnal dadl ar y ddwy eitem nesaf o fusnes**

Dechreuodd yr eitem am 18:20

**NDM5117 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal dros dro Reol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 27.7 er mwyn caniatáu i NDM5118 a NDM5119 gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 5 Rhagfyr 2012.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 18 | 51 |

**Gan nad oedd dwy ran o dair o'r Aelodau a bleidleisiodd yn cefnogi'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

**PWYNT O DREFN 3**

Cododd y Prif Weinidog Bwynt o Drefn yn hysbysu’r Cynulliad ei fod yn ystyried ysgrifennu at y Llywydd yn galw am ailgynnull y Cynulliad.

Nododd y Llywydd y byddai’n ystyried unrhyw gais ffurfiol a ddaw i law, ond y byddai am gael gwybod pa amgylchiadau sydd wedi newid er mwyn cyfianwhau’r alwad i ailgynnull.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**

**8. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru)**

**Gan nad oedd dwy ran o dair o’r Aelodau a bleidleisiodd yn cefnogi’r cynnig i atal y Rheolau Sefydlog dros dro, ni chafodd eitemau 8 a 9 eu trafod.**

**9. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru)**

**Gan nad oedd dwy ran o dair o’r Aelodau a bleidleisiodd yn cefnogi’r cynnig i atal y Rheolau Sefydlog dros dro, ni chafodd eitemau 8 a 9 eu trafod.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18:57

Daeth y cyfarfod i ben am 19:00

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2013**